Sut mae enwebu gweithwyr proffesiynol eithriadol Macmillan neu bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser ar gyfer gwobr canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru

Darllenwch y canllawiau hyn cyn llenwi ffurflen enwebu

Ar gyfer pwy mae gwobrau canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru?
Mae gwobrau canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru yn cydnabod gweithwyr proffesiynol Macmillan a phobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser, sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol tuag at uchelgais Cymorth Canser Macmillan i fod yn ffynhonnell o gymorth ac yn rym dros newid i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru.

Pwy all enwebu?

Gall y canlynol enwebu pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser:

- Cymheiriaid unigolyn, er enghraifft, cyd-aelodau o grŵp defnyddwyr neu grŵp cefnogi
- Gweithiwr iechyd proffesiynol
- Aelod o'r teulu neu ffrind

Gall y canlynol enwebu gweithwyr proffesiynol/timau Macmillan:

- Gall unigolyn neu dîm eu henwebu eu hunain (ac eithrio gwobr cyrhaeddiad oes)
- Gall rheolwyr enwebu eu timau neu un o aelodau eu timau
- Gall berson sydd wedi defnyddio gwasanaeth enwebu'r gwasanaeth, y tîm, neu unigolyn

Ar gyfer pa wobr ddylwn i enwebu gweithiwr proffesiynol Macmillan neu berson sydd wedi'i effeithio gan ganser?
Gallwch enwebu gweithiwr proffesiynol Macmillan neu berson sydd wedi'i effeithio gan ganser ar gyfer unrhyw wobr cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf. Os ydych yn ansicr ynglŷn â pha wobr sydd orau, cysylltwch â Thîm Cymru ar (01656867960) a byddant yn gallu rhoi cyngor.

Sut mae enwebu?
Er mwyn enwebu gweithiwr proffesiynol Macmillan neu berson sydd wedi'i effeithio gan ganser ar gyfer gwobr, yna llenwch *Ffurflen enwebu gwobrau Canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru*, gan dalu sylw manwl at feini prawf y wobr a'r canllawiau a nodir yn y ddogfen hon.

I ble mae angen gyrru'r ffurflen ar ôl ei llenwi?
A wnewch chi anfon y ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at lmordecai@macmillan.org.uk.
Os wnaethoch chi lenwi'r ffurflen â llaw, yna gyrrwch hi drwy'r post at Linda Mordecai, Cymorth Canser Macmillan, 1 Ffordd Oldfield, Parc Bocam, Pencoed, CF35 5LJ

Beth sy'n digwydd wedi i fi gyflwyno fy enwebiad?
Unwaith i chi anfon y ffurflen at dîm Cymru, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o hynny ymhen pythefnos. Yna bydd eich enwebiad o dan ystyriaeth gan banel y gwobrau.

Pryd mae dyddiad cau'r enwebiadau?
Y dyddiad cau terfynol am enwebiadau ar gyfer holl wobrau canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru yw dydd Mawrth 3ydd o Fai 2011.

Cyflwyno gwobrau
Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno yn seremoni wobrwyo canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru ar noson y 29ain o Fehefin 2011, yng Nghaerdydd. Bydd enillydd pob categori yn derbyn gwobr, a thystysgrif.

Am ragor o wybodaeth
Am wybodaeth fwy manwl am y broses wobrwyo cysylltwch â:

Cymorth Canser Macmillan, 1 Ffordd Oldfield, Parc Bocam, Pencoed, CF35 5LJ
Rhif ffôn: 01656 867951

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau ar gyfer holl wobrau canmlwyddiant Macmillan yng Nghymru yw Dydd Mawrth 3ydd o Fai 2011

Gweler trosodd ar gyfer meini prawf y gwobrau

Meini Prawf y Gwobrau

Enw'r Wobr	Meini Prawf y Wobr
Gwobr ymwneud defnyddiwr Macmillan ar gyfer person sydd wedi'i effeithio gan ganser	Ar gyfer person sydd wedi'i effeithio gan ganser ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i Macmillan drwy ymwneud defnyddiwr yng Nghymru
Gwobr ymgyrchydd Macmillan ar gyfer person sydd wedi'i effeithio gan ganser	Ar gyfer person sydd wedi'i effeithio gan ganser ac sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i Macmillan drwy ymgyrchu dros well gwasanaethau canser yng Nghymru
Gwobr arloesi Macmillan ar gyfer gweithwyr proffesiynol	Ar gyfer gweithiwr proffesiynol Macmillan sydd wedi arloesi a sicrhau datblygiadau o ran darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru
Gwobr arweinyddiaeth Macmillan ar gyfer gweithwyr proffesiynol	Ar gyfer gweithiwr proffesiynol Macmillan sydd wedi dangos arweinyddiaeth ysbrydoledig ac sydd wedi dangos lefel uchel o ymroddiad tuag at dwf a datblygiad gwasanaethau ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru
Gwobr partneriaeth Macmillan ar gyfer gweithwyr proffesiynol	Ar gyfer gweithiwr proffesiynol Macmillan sydd wedi sicrhau datblygiadau o ran darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru, drwy gydweithio arloesol mewn partneriaeth â mudiadau eraill
Gwobr tîm Macmillan	Ar gyfer tîm Macmillan sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol at wasanaethau ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru
Gwobr cyrhaeddiad oes Macmillan ar gyfer gweithwyr proffesiynol	Ar gyfer gweithiwr proffesiynol Macmillan sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser yng Nghymru. Mae'r person yma wedi dangos lefel uchel o ymrwymiad ac ymroddiad dros gyfnod o 15 mlynedd o leiaf